

## ❖ GENI IESU

Mae'n fore dydd Nadolig  
a ninnau i gyd yn blant  
mewn hwyliau bendigedig,  
mewn cân o lawen dant;  
wrth agor ein hanrhegion  
a chofio'r cariad mawr  
dywalltodd caredigion  
dros rai fel ni yn awr.

Mae'n fore dydd Nadolig,  
ymunaf gyda'r plant  
i gofio'r Dirmygedig  
droes un fel fi yn sant;  
trwy fynd i Ben Calfaria  
a'i roi ei Hun yn rhodd  
dros fyd mor ysgafala  
sy'n pechu wrth eu bodd.

Mae'n fore dydd Nadolig,  
mae pawb yn dathlu hwn,  
mae pob un yn garedig  
wrth dlotyn dan ei bwn;  
pan wawria bore fory  
daw'r byd yn ôl i'w le,  
y moethus wedi sobri  
a'r tlawd ar stryd y dre'.

**Darllen: Luc 2:8–16****Gweddi:**

Diolch am yr asyn bychan a gariodd Mair hyd Fethlehem ac a rannodd ei lety â'r pâ'r a'u baban.  
Diolch i'r asyn am wynebu'r anialwch maith ac am gario Mair a'i baban bob cam i'r Aifft o afael Herod.  
Y mae 'na ryw Herod o hyd am ladd plant bach. Ac mae rhyw asyn bach yn helpu rhywrai i ffoi heno. Mae'r  
anifeiliaid mud yn gwneud eu rhan i gario beichiau. A wnawn ni ein rhan?  
Helpa ni i gofio am y rhai 'heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely' ar noson oer fel heno.

Gwefusau yr afon wedi'u cloi yn dynn,  
pibonwy dan fargod a rhew ar y llyn,  
yr eira yn gorwedd yn gwrlid mawr gwyn  
ar noson Ei eni Ef.

Diolch am y bugeiliaid oedd yn 'gwylio' u praidd liw nos'.

Bydd rhywrai yn gweithio y Nadolig hwn i gadw pawb arall yn ddiogel a chlyd. Gobeithio y gallant hwythau  
deithio i Fethlehem ar ôl gwaith a gweld y Gwardedwr.

Diolch am y Doethion a adawodd gartrefi moethus i geisio gwirionedd am Oleuni y Byd. Rho oleuni  
yn yr holl addysg a gyfrennir inni a gad inni oll ddeall gwerthoedd. Gad inni ddeall yn iawn a bod yn barod  
i adael aur mewn ystabl, thus mewn preseb a myrr mewn hofel.

Amen.

**Neges:**

Gwisgo agwedd gwas:

Gall pob un ohonom wasanaethu.

Dywedir i'r pry copyn, sydd mor atgas gennym, wneud ei gyfraniad y noson honno wrth i Mair a Joseff ffoi gyda'u baban. Daethant y noson gyntaf i ogof yn yr anialwch ac wrth iddi oeri, a hwythau wedi blino'n lân, aethant i mewn iddi i gysgu'r noson honno. Wrth fynd i orffwys yr oeddent yn ofni bod milwyr Herod yn eu herlid ac y byddent yn siŵr o weld ôl carnau'r asyn. Daeth y milwyr wedi dilyn yr olion a phan welsant yr ogof roeddent yn siŵr eu bod wedi eu dal; er syndod iddynt, gwelsant fod gwe pry cop dros enau'r ogof a'r gwllith yn berlau arni dan haul cynta'r dydd. Aethant yn eu blaenau gan dybio na fu neb yn yr ogof am fod y we yn gyfan. Rhowch y tinsel arian ar y goeden i gofio cyfraniad y pry cop.

Efallai mai di-nod a di-glod ydym ninnau, ond gallwn trwy ddiwydrwydd wasanaethu Iesu.

Am dros ugain mlynedd bŵm yn arwain pererindodau i Fethlehem. Y mae yng Ngwlad y Beibl fil a mwy o ryfeddodau sy'n bregethau bob un. Nid oes un darlun yn fwy huawdl na drws bach isel Eglwys y Geni. Lawer gwaith, sefais yno yn gwyllo mawrion byd ac eglwys yn gorfod gwyro'n wylaidd i wasgu i mewn i fan geni'r Gwarddwr; ar yr un pryd, yr oedd plant bach yn rhedeg i mewn ac allan heb drafferth. Beth bynnag yw'r eglurhad am y drws (rhwystru anghredinwyr rhag defnyddio'r eglwys yn stabl i'w camelod, medd rhai), y mae'r drws yn wers i ni: 'Oddieithr eich gwneuthur fel plant bychain nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas Dduw.'

Wedi mynd i mewn teimlwn fod geiriau yn annigonol a gofynnwn am gael disgyn i'r ogof fechan a phenlinio'n dawel yno o flaen y seren bres sy'n nodi'r man geni. Penlinio'n ddirwgnach ar y llawr pridd. Wedi bod yn fud am dipyn, byddai rhywun yn siŵr o ddechrau canu'n dawel, 'I orwedd mewn preseb ...'

Bendithia ni y Nadolig hwn trwy gael calon lawn a llawen beth bynnag ein hamgylchiadau.

Amen.